



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru ... Arfer Da 2016

Gwybodaeth

Chi Biau'r Dewis

Dim Gwahaniaethu

Parch

Bod Ar Eich Ennill

Adborth

Gweithio'n Well Drosodd Chi



CYNNWYS

Adran		Tudalen
1.0	Cyflwyniad	2
1.1	Canllaw i bwy yw hwn?	2
1.2	Beth yw ystyr 'cyfranogi' yn y canllaw hwn?	2
1.3	Beth yw ystyr 'hawliau' yn y canllaw hwn?	2
1.4	Y cyd-destun cenedlaethol	3
1.5	Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc	4
2.0	Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc	6
2.1	Gwybodaeth	6
2.2	Eich dewis chi	9
2.3	Dim gwahaniaethu	11
2.4	Parch	13
2.5	Byddwch chi ar eich ennill hefyd	16
2.6	Adborth	20
2.7	Gwella'n ffordd o weithio	22
3.0	Gwobrau Rhagoriaeth mewn Gwaith Ieuenctid	26
4.0	Casgliadau	27
Atodiad A	Cyfeirlyfr Awdurdodau Lleol	28
Atodiad B	Poster Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc	29

1. Cyflwyniad

1.1 Canllaw i bwy yw hwn?

Paratowyd y canllaw hwn i unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, neu ar eu rhan, gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau cenedlaethol, lleol a gwirfoddol; sy'n ymwneud â pholisïau a gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc, teuluoedd a chymunedau.

1.2 Beth yw ystyr 'cyfranogi' yn y canllaw hwn?

Y diffiniad llythrennol a roddir i gyfranogi yw 'cymryd rhan'. Yng nghyd-destun hawliau plant a phobl ifanc, fodd bynnag, mae cyfranogi'n ymwneud â rhoi llais i blant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a allai effeithio ar eu bywydau nhw a rhoi cyfle iddynt fod yn rhan bendant o'r broses o wneud y penderfyniadau hynny. Mae cyfranogi'n golygu gwrando a chydweithredu â phlant a phobl ifanc.

Cyfranogiad yw un o brif egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae Erthygl 12 yn CCUHP yn nodi bod gan blant a phobl ifanc hawl i ddisgwyl y caiff eu barn ei hystyried pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch materion sy'n effeithio arnynt. Caiff yr Erthygl hon ei hystyried yn arbennig o bwyg yn yr ystyr ei fod yn hawl sy'n galluogi, yn grymuso ac yn cynorthwyo plant a phobl ifanc i fynnu hawliau ehangach o dan CCUHP, yng nghyd-destun y teulu, yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Mae'r egwyddor yn cadarnhau bod plant yn ddinasyddion gweithredol sydd â rhywbeth pwysig i'w gyfrannu at eu teuluoedd, eu hysgolion, eu cymunedau a'u cenedl. Mae ganddynt yr hawl i fynegi barn am bob dim sy'n effeithio arnynt nhw ac i'w barn gael ei chlywed, ac iddi gael y sylw dyledus, yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd y plentyn. Mae'n cydnabod y gall plant gyfoethogi'r broses o wneud penderfyniadau, gan rannu safbwyntiau a chyfranogi fel dinasyddion a hwyluswyr newid.

1.3 Beth yw ystyr 'hawliau' yn y canllaw hwn?

Cytundeb rhyngwladol sy'n diogelu hawliau dynol plant o dan 18 oed yw CCUHP. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i ymgorffori egwyddorion CCHUP mewn deddfwriaeth. Mae Mesur 'Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), a ddaeth i rym ym mis Mai 2012, yn cryfhau ac yn adeiladu ar ddull Llywodraeth Cymru o weithredu ar sail hawliau, drwy roi dyletswydd ar Ysgrifenyddion Cabinet a Gweinidogion Llywodraeth Cymru i roi'r sylw priodol i'r hawliau a'r rhwymedigaethau a nodir yn CCHUP.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu CCUHP fel sylfaen ei holl waith yn ymwneud â phlant a phobl ifanc Cymru ac mae wedi crynhoi erthyglau CCUHP yn y Saith Amcan Craidd i blant a phobl ifanc. Yn ôl Amcan Craidd 5, rhaid gwrando ar farn pob plentyn a pherson ifanc, eu trin â pharch a chydabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol.

Mae nifer o ddarpariaethau CCUHP yn adlewyrchu hawl plant i gyfranogi:

- **Mabwysiadu** – fel un o'r "personau dan sylw," dylai llais y plentyn gael ei glywed mewn unrhyw achos cyfreithiol neu weinyddol yn ymwneud â mabwysiadu. Mae Erthygl 21(a) yn cyfeirio at gydsyniad gwybodus y personau dan sylw, gan gynnwys y plentyn.

- **Gwahanu plentyn oddi wrth ei rieni** – mewn penderfyniadau ynghylch yr angen i wahanu plentyn oddi wrth ei rieni (er enghraifft, oherwydd ei fod yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso) – rhaid rhoi cyfle i'r plentyn, fel person y bydd y penderfyniad yn effeithio arno, gyfranogi a mynegi ei safbwynt.
- **Newid enw** – wrth benderfynu newid enw plentyn, rhaid ystyried barn y plentyn dan sylw.
- **Hawl i ieuchyd** – mae gan blant hawl i gael gwybodaeth, i fedru cael gwybodaeth ac i gael cymorth i ddefnyddio gwybodaeth sylfaenol am ieuchyd a maeth plant (Erthygl 24(2)e) er mwyn iddynt fedru mwynhau eu hawl i ieuchyd.
- **Addysg** – mae dimensiwn arbennig yn perthyn i gyfranogiad plant ym maes addysg. Dylid rhoi cyfle i blant feithrin eu doniau a'u gallu'n llawn. Mae nifer o erthyglau CCUHP yn arbennig o berthnasol i leoliadau addysgol.
- **Gwybodaeth** – Mae erthyglau 13 ac 17 yn nodi hawl plant a phobl ifanc i gael gwybodaeth ddibynadwy a'i rhannu.

I weld rhestr lawn o Erthyglau CCUHP, gan gynnwys fersiwn ar gyfer pobl ifanc, ewch i www.hawliauplant.cymru

Mae Llywodraeth Cymru am i bob plentyn a pherson ifanc gael cyfleoedd i gyfranogi yn y broses o wneud penderfyniadau a hynny'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yng Nghymru. Cânt gyfleoedd i wneud hynny drwy drefniadau fel cynghorau ysgol, fforymau ieuenctid a phrosiect Cymru Ifanc.



Mae Llywodraeth Cymru yn darparu arian ar gyfer prosiect Cymru Ifanc, a hwylusir gan Blant yng Nghymru, y corff ymbarél ar gyfer sefydliadau plant.

Mae Cymru Ifanc yn gweithio gyda grwpiau, fforymau a chynghorau ieuenctid presennol i gyfuno lleisiau plant a phobl ifanc a dylanwadu ar ddeddfwriaeth, polisiau a rhaglenni. Mae hefyd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i estyn allan at blant a phobl ifanc sy'n teimlo'u bod yn ddibwys, yn swil, dan anfantais, yn ddihyder neu'n unig, i'w galluogi hwythau hefyd i leisio barn.

1.4 Y cyd-destun cenedlaethol

O dan Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol i awdurdodau lleol ar annog a galluogi plant a phobl ifanc i gyfranogi mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt. Yn 2015, cafodd y canllawiau hyn eu diweddarau i ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Ddeddf yn dweud bod cyfraniad effeithiol pobl a chymunedau yn ganolog i'r broses o wella llesiant, a hefyd yn un o'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf.

Mae Llywodraeth Cymru yn glir bod disgwyl i'r canllawiau statudol gael eu gweithredu drwy Gymru a bod yn rhaid i gyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau fod yn rhan annatod o wasanaethau prif ffrwd. Ers 2014, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymweld yn rheolaidd â phob awdurdod lleol i gael 'darlun o gyfranogiad' drwy ddeall sut y mae'r ddyletswydd hon yn cael ei rhoi ar waith yn lleol.

1.5 Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Caiff Plant yng Nghymru ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i fod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer hawliau plant ac, yn ddiweddar, maent wedi diweddarau'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol i adlewyrchu'r ethos sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n rhan annatod o weithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r [Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol](#) yn cynnig arweiniad ar y ffyrdd gorau a mwyaf ystyrlon o wrando ar leisiau plant a phobl ifanc, ac o ymateb iddynt, yn unol ag Erthygl 12 o CCUHP.

Cael llais Cael dewis Having a voice Having a choice Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl ifanc Children and Young People's National Participation Standards "Mae gan blant hawl i roi eu barn ynghylch beth ddylai ddigwydd, pan fydd oedolion yn gweithredu penderfyniadau sy'n effeithio arnyhau, ac i gael sylw i'w barn" Erthygl 12: Cofrestru y Cenedlaethol Uwedd ar Hawliau Plant (CCUHP) "Children have the right to say what they think should happen, when adults are making decisions that affect them, and to have their opinions taken into account" Article 12: The United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC)			
Mae hyn yn golygu:	Byddwn ni:	This means:	We will:
- Mae gennyh chi hawl i wybodaeth sy'n hawdd ei ddeall ac sy'n gadael i chi wneud penderfyniad gwybod. - Mae gennyh chi hawl i ddeall cymryd man a gweithio ar bethau sy'n bwysig i chi.	- Yn darparu gwybodaeth o safon da, yn glir ac yn hawdd mynd at. - Yn rhoi gwybodaeth i chi pwy sy'n mynd i wrando a gadael i chi wneud pa wahanachd gairach cyfranogiad chi ei wneud.	1 Gwybodaeth Information You have the right to information that is easy to understand and allows you to make an informed decision.	- Provide information that is good quality, clear and accessible. - Inform you about who's going to listen and let you know what difference your involvement could make.
Mae gennyh chi hawl i ddeall cymryd man a gweithio ar bethau sy'n bwysig i chi.	Yn rhoi digon o gefnogaeth ac amser i chi ddeall a foch chi eiddau cymryd man.	2 Chi biau'r dewis It's your choice You have the right to choose to be involved and work on things that are important to you.	Give you enough support and time to choose if you want to get involved.
Mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ac mae ganddyn nhw hawl i gael eu trin yn deg.	- Yn hario gwahanachau. - Yn cynnig amrediad o gyfnewidiadau a chetogaeth i fodoli anghenion plant a phobl ifanc.	3 Dim gwahanachau No discrimination Children and young people are all different and have the right to be treated fairly.	- Challenge discrimination. - Provide a range of opportunities and support to meet the needs of children and young people.
Mae gennyh chi hawl i leisio barn. Mae'n safon i'w hysbysu i chi a hysbysu i chi.	- Yn gwrando ar eich barn, eich profiadau a'ch syniadau ac yn eich cymryd chi o ddi. - Yn gweithio gyda chi a'ch barn a'ch syniadau chi'n ddiwedd eu bod nhw'n bwysig. - Yn gwrando'n ddigon beth sydd gennyh chi i'w gyswll.	4 Parch Respect You have the right to have a say. Your opinions are important and will be respected.	- Listen to your views, experiences and ideas and take you seriously. - Work with you on things you say are important. - Value what you have to offer.
- Mae gennyh chi hawl i ddyfalu a bod y gorau i'w gyswll chi. - Yn gweithio gyda chi a'ch barn a'ch syniadau chi'n ddiwedd eu bod nhw'n bwysig. - Yn gwrando'n ddigon beth sydd gennyh chi i'w gyswll.	- Yn gweithio gyda chi mewn ffordd ddogel, hysbysu a phremerus. - Yn gwrando i'r eiddau a'ch barn a'ch syniadau chi'n ddiwedd eu bod nhw'n bwysig. - Yn gwrando'n ddigon beth sydd gennyh chi i'w gyswll.	5 Bod ar eich enill You get something out of it - You have the right to learn and be the best you can be. - You will have opportunities to work with others and make a difference. - We want you to be involved in positive experiences.	- Work with you in safe, fun and enjoyable ways. - Make the most of what you know and do things that build your confidence and skills.
- Mae gennyh chi hawl i'w bod yn wahanol a'ch barn a'ch syniadau chi'n ddiwedd eu bod nhw'n bwysig. - Yn gwrando'n ddigon beth sydd gennyh chi i'w gyswll.	- Yn gwrando'n ddigon beth sydd gennyh chi i'w gyswll. - Yn gwrando'n ddigon beth sydd gennyh chi i'w gyswll. - Yn gwrando'n ddigon beth sydd gennyh chi i'w gyswll.	6 Adroddio Feedback You have the right to know what differences you have made and how your ideas have been listened to.	- Always ensure you have feedback in an agreed time. - Tell you how your ideas have been used and why. - Tell you what happens next.
- Yn gwrando'n ddigon beth sydd gennyh chi i'w gyswll. - Yn gwrando'n ddigon beth sydd gennyh chi i'w gyswll. - Yn gwrando'n ddigon beth sydd gennyh chi i'w gyswll.	- Yn gwrando'n ddigon beth sydd gennyh chi i'w gyswll. - Yn gwrando'n ddigon beth sydd gennyh chi i'w gyswll. - Yn gwrando'n ddigon beth sydd gennyh chi i'w gyswll.	7 Gweithio'n well drosodd chi Working better for you Those who make decisions that affect children and young people should put children's rights at the centre of everything they do.	- Work with you and learn how we can do things better. - Ensure your views make a difference to the way we make plans and decisions.
Y Safonau hyn sy'n cynnal tair colofn CCUHP - Diogelu, Darpariaeth a Chyfranogiad The Standards underpin the three pillars of the UNCRC – Protection, Provision & Participation			

Yn 2016, cafodd y Safonau Cyfranogiad eu diweddarau drwy bartneriaeth rhwng gweithwyr Fforymau Ieuenctid a Chymru Ifanc, ar ôl ymgynghori â phobl ifanc. Datblygwyd y Safonau gyda phobl ifanc, ar eu cyfer nhw, ac maent yn nodi sut y gall plant a phobl ifanc gyfrannu at benderfyniadau mewn ffyrdd ystyrlon ac effeithiol. Maent i'w gweld yn <http://www.cymruifanc.wales/index.php/young-wales-cafe/news/215-participation-standards>

Mae'r Safonau'n nodi'r prif faterion y dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol ohonynt pan fyddant yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc Cymru. Aeth y bartneriaeth ati i adolygu pob un o'r saith safon gan sicrhau bod pob un yn adlewyrchu'r ethos seiliedig ar hawliau, sy'n rhan annatod o weithio gyda phlant a phobl ifanc.

Bydd y safonau diwygiedig yn arwain at ganllawiau diwygiedig ar y broses nod barcud a'r dulliau hunanasesu, i'r awdurdodau lleol, drwy eu tîm arolygu, eu defnyddio.

Caiff cyrff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc eu hannog i ymgymryd â'r broses hunanasesu i ddangos eu bod yn bodloni'r Safonau Cyfranogiad ym mhob agwedd ar eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc.

2. Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

2.1 Gwybodaeth

Dyma mae'r safon yn ei olygu:	Byddwn ni'n:
Mae gennych hawl i gael gwybodaeth sy'n hawdd ei deall ac sy'n caniatáu i chi wneud penderfyniad gwybodus.	• Rhoi gwybodaeth o safon, sy'n glir ac yn hawdd i'w chael • Dweud wrthyhch pwy fydd yn gwrandao a sut y gall eich cyfranogiad wneud gwahaniaeth

Enghreifftiau o arfer da mewn Awdurdodau Lleol

Blaenau Gwent

Mae Blaenau Gwent wedi creu swydd ar gyfer Swyddog Gwybodaeth Ieuencid i sicrhau nad yw gwybodaeth ieuencid yn mynd ar goll yn y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth Ieuencid yn gweithio ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a nifer o sefydliadau eraill yn ymwneud ag ieuencid i ddarparu gwybodaeth sy'n caniatáu i bobl ifanc wneud penderfyniadau gwybodus am faterion pwysig yn ymwneud â nhw.

Pen-y-bont ar Ogwr




Drwy ddatblygu Rhwydwaith Strategaeth Cyfranogi, mae cynllun gweithredu cynhwysfawr wrthi'n cael ei ddatblygu. Bydd yn adlewyrchu'r amcanion a amlygir yn y Strategaeth Gyfranogi a gaiff ei weithredu drwy Ben-y-bont ar Ogwr cyfan. Mae'r Strategaeth a'r cynllun gweithredu'n cynnwys y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ac maent yn nodi sut y bydd y camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn bodloni'r Safonau. Caiff pob un o'r blaenoriaethau a amlygir yn y cynllun gweithredu eu monitro'n ôl y safon berthnasol.

Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyflwyno prosesau ymgynghori y gellir cyfrannu atynt drwy ddefnyddio ffonau symudol. Er enghraifft, nod 'prosiect 446' yw deall pam mae rhai cymunedau'n teimlo'u bod wedi ymddieithrio oddi wrth wasanaethau, a beth y gellir ei wneud i ymateb i hyn. Yn ystod cam un, ymgynghorwyd â phobl ifanc fel rhan o ymgynghoriad eang mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd ac arbennig, grwpiau cymunedol a fforymau ar hyd a lled Pen-y-bont ar Ogwr, i gael gwybodaeth am fodlonrwydd cymunedol – daeth 2800 o ymatebion i law.

Caerffili

Mae Caerffili yn helpu sefydliadau eraill i ymrwmo i hybu cyfranogiad drwy gynnig hyfforddiant ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a chyfranogi. Enghraifft o hyn yw'r sesiwn hyfforddi dwy awr a hanner o hyd, sy'n cynnwys hyfforddiant ar CCUHP a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



Sir Gaerfyrddin

Mae'r awdurdod yn cadw cronfa ddata o blant a phobl ifanc a gaiff eu haddysgu gartref ac yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth am CCUHP a chyfleoedd i gyfranogi, yn cael eu hanfon i'w cydgysylltwyr addysg gartref a fydd, wedyn, yn eu rhannu â'r unigolion perthnasol.

Ceredigion

Caiff unrhyw wybodaeth am CCUHP y bydd Llywodraeth Cymru yn ei chynhyrchu a'i chyhoeddi yn cael ei dosbarthu a'i rhannu â holl gynghorwyr yr awdurdod lleol.

Conwy

Fel rhan o Raglen Ysgolion Iach Conwy, caiff rhaglen hyfforddi Addysg Bersonol a Chymdeithasol ei chyflwyno gan fyfyrwyr chweched dosbarth. Mae'r rhaglen yn cynnwys materion fel pobl Lesbaid, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) a chrefydd. Mae hefyd yn helpu cynghorau ysgol i gyfranogi ar lefel strategol.

Sir Ddinbych

Bydd uwch aelodau o staff a chynghorwyr yn cynnal "Noson yng nghwmni..." a chaiff pobl ifanc gyfle i rannu sylwadau a gofyn cwestiynau ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw.

Sir y Fflint

Mae cynrychiolwyr Fforwm Ieuenctid Sir y Fflint yn dysgu am CCUHP ac yn cyflwyno sesiynau codi ymwybyddiaeth i grwpiau o oedolion drwy'r rhaglen 'Mae Pobl Ifanc yn Dweud.' Mae'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yn rhan o'r hyfforddiant hwn.

Sir Fynwy

Mae aelod o'r Cyngor Ieuenctid hefyd yn Llysgennad Cenedlaethau'r Dyfodol ar ran yr awdurdod ac yn rhoi sgysiau i blant a phobl ifanc mewn ysgolion ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Sir Benfro

Caiff Cynadleddau Blynyddol Llais Myfyrwyr eu cynnal ar gyfer cynghorau ysgolion y sir. Mae 250 o fyfyrwyr wedi mynychu'r rhain dros y ddwy flynedd diwethaf. Trafodwyd hawliau plant, cafodd pobl ifanc gyfle i gymryd rhan mewn gweithdai a chyfarfod â Chomisiynydd Plant Cymru a chawsant eu paratoi i gyflwyno hyfforddiant ar hawliau plant ar ôl dychwelyd i'w hysgolion. Bu'r cynadleddau hyn yn llwyddiannus iawn, ac o'r 70 o ysgolion yn yr awdurdod, mae dros 50 wedi anfon cynrychiolwyr.

Abertawe

Rhan o ymgyrch Dinasoedd Iach yw [Dechrau Gorau Abertawe](#) ac mae'n helpu rheini i baratoi eu plant ar gyfer yr ysgol a bywyd yn gyffredinol a hynny drwy gyflwyno teulu'r 'Jacks.' Drwy negeseuon Dechrau Gorau, amlinellir arferion sy'n gallu cynnig y cychwyn gorau bosibl mewn bywyd i blant yn ystod eu 1000 diwrnod cyntaf a'u helpu nhw i fwynhau eu hawliau wrth fyw o ddydd i ddydd.



Torfaen



Mae Gwasanaeth Chwarae Torfaen yn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc 5-15 oed chwarae yn y gymuned mewn clybiau ar ôl ysgol a chynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau. Caiff y lleoliadau chwarae hyn eu defnyddio i ddechrau ymgysylltu â phlant iau a'u dysgu am eu hawliau ac am gyfranogi.

Bro Morgannwg

Bydd Bro Morgannwg yn cynnal [archwiliad o'r cyngor ysgol bob dwy flynedd](#). Diben hyn yw gweld beth yw sefyllfa pob cyngor ysgol, sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 a sefydlu a rhannu arfer da.

Wreccsam

Caiff cynghorau ysgolion cynradd eu monitro gan Dîm Ysgolion Iach Wreccsam. Bydd y tîm yn gofyn i'r ysgolion lenwi ffurflen i werthuso'u harfer presennol cyn i'r tîm ymweld â nhw i arsylwi un o'u cyfarfodydd. Caiff pymtheg o gynghorau eu harsylwi bob blwyddyn a chaiff adroddiad ei baratoi ar gyfer pob ysgol. Bydd hwn yn cynnwys sylwadau ac argymhellion.

Bydd y Tîm Ysgolion Iach yn trefnu dwy sesiwn hyfforddi i athrawon cynradd ar ddogfen ganllaw cynghorau ysgol a baratowyd gan Lywodraeth Cymru. Maent hefyd wedi paratoi llyfryn i'r staff dysgu sy'n cynnwys canllawiau ar redeg cyngor ysgol llwyddiannus, ennyn diddordeb disgyblion yn eu haddysg eu hunain, datblygu polisïau a recriwtio staff.

2.2 Eich dewis chi

Dyma mae'r safon yn ei olygu:	Byddwn ni'n:
Mae gennych chi'r hawl i ddewis cymryd rhan a gweithio ar bethau sy'n bwysig i chi.	Rhoi digon o gefnogaeth ac amser i chi ddewis a ydych am gymryd rhan.

Engbreiffiau o arfer da mewn Awdurdodau Lleol

Caerffili



Yng Nghaerffili, mae Fforwm Ieuenctid Iau a Hŷn. Plant 7-11 oed sydd yn y Fforwm Iau ac mae cyfle i bobl ifanc feithrin sgiliau a magu hyder cyn iddynt symud ymlaen i'r Fforwm Hŷn.

Caerdydd

Cyn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cynhaliodd Cyngor Ieuenctid Caerdydd hystings digidol i ennyn diddordeb pobl ifanc Caerdydd mewn gwleidyddiaeth.

Ar ôl llwyddiant ysgubol prosiect 'Shout Out' yn ystod yr etholiad cyffredinol, penderfynodd y Cyngor Ieuenctid gynnal hystings arall i roi cyfle i bobl ifanc holi darpar Aelodau'r Cynulliad dros Gaerdydd.

Gan ddefnyddio'r pynciau a godwyd gan bobl ifanc, paratowyd cyfres o gwestiynau ar gyfer y 28 a oedd yn ymgeisio am seddi yng Nghaerdydd. Roedd cynrychiolwyr o saith o bleidiau gwahanol, a oedd yn sefyll ar gyfer pedair etholaeth wahanol, a chafodd eu hymatebion eu recordio mewn 'Shout-out' arbennig ar gyfer Etholiad y Cynulliad Cenedlaethol 2016.



Conwy

Bydd yr Awdurdod yn anfon cardiau pen-blwydd pan fydd pobl ifanc y sir yn troi'n ddeunaw oed. Bydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am bleidleisio, er mwyn ceisio'u hannog i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Sir Ddinbych



Bydd Cyngor Ieuenctid Sir Ddinbych yn cynnal cyfarfod ar hyd a lled y sir i ddenu pobl sy'n byw'r tu allan i'r prif drefi.

Torfaen

Os oes unrhyw wasanaeth neu sefydliad sy'n gweithio gyda'r awdurdod lleol yn dymuno ymwneud â phlant a phobl ifanc, mae'n rhaid iddynt lenwi 'ffurflen protocol cyfranogi'. Mae hon yn esbonio nod y gweithgaredd, sut y maent yn bwriadu ymgynghori â phlant a phobl ifanc, canlyniad neu fudd arfaethedig y gweithgaredd a sut y caiff y canlyniadau eu bwydo'n ôl. Y Swyddog Cyfranogi sy'n cadw'r wybodaeth hon ac yn ei throsglwyddo i'r Grŵp Ymgysylltu Strategol. Mae'r ffurflen yn caniatáu i'r awdurdod ddangos sut y caiff hawliau plant a phobl ifanc eu hystyried wrth ymgymryd â gweithgareddau.

Wrecsam

Senedd yr Ifanc Wrecsam yw Senedd Ieuenctid Wrecsam. Mae'n cynnwys 70 o bobl ifanc 11-25 oed a gaiff eu hethol i gynrychioli grŵp neu brosiect.



Mae'r Senedd yn trafod materion sy'n effeithio ar bobl ifanc drwy'r sir i gyd. Mae'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn yn Siambrau'r Cyngor yn Neuadd y Dref. Cyfarfodydd sydd wedi'u strwythuro yw'r rhain ac mae rhannu ohonynt yn ffurfiol ac eraill yn anffurfiol.

Yn ystod y cyfarfodydd hyn, daw pobl broffesiynol i siarad â'r Senedd i glywed eu barn am faterion penodol. Gall cyfarfodydd y Senedd hefyd gynnwys dadleuon, gweithgorau sy'n ymdrin â phynciau penodol a chyflwyniadau.

2.3 Dim gwahaniaethu

Dyma mae'r safon hwn yn ei olygu: Mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ac mae ganddyn nhw'r hawl i gael eu trin yn deg	Byddwn ni'n: • Herio gwahaniaethu • Darparu amrywiaeth o gyfleoedd a chefnogaeth i fodloni anghenion plant a phobl ifanc.
--	--

Enghreifftiau o arfer da mewn Awdurdodau Lleol

Blaenau Gwent

Mae nod barcud gwrth fwlio wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â Stonewall. Cafodd grŵp o gyfoedion eu hyfforddi i arolygu ysgolion o safbwynt eu polisi gwrth fwlio. Mae'r arolygiad yn cynnwys cyfweild â disgyblion ac athrawon i benderfynu pa mor effeithiol yw'r polisi. Caiff ysgolion llwyddiannus nod barcud gwrth fwlio.

Pen-y-bont ar Ogwr



Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi datblygu cerdyn adnabod i ofalwyr ifanc. Gall gofalwyr ifanc ddangos y cerdyn i'w hathrawon os ydynt yn cael problemau. Er enghraifft, os ydynt yn ei chael yn anodd aros ar ôl ysgol yn ddirybudd, neu os oes angen iddynt adael eu ffonau symudol ymlaen, gan ddiffodd y sain, yn yr ystafell ddosbarth neu os ydynt yn cael trafferth gorffen eu gwaith cartref, mae'n bosibl mai eu cyfrifoldebau gofalu yw'r rheswm dros hynny. Gall y cerdyn wneud gwahaniaeth mawr o ran osgoi sefyllfaoedd annifyr yn yr ysgol.

Caerdydd

Mae'r Tîm Nam ar y Clyw yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc o bob oed, o'u genedigaeth tan y byddant wedi gadael yr ysgol. Mae'r tîm yn gweithio mewn partneriaeth agos â gweithwyr proffesiynol i ddarparu:

- cymorth ychwanegol i ddisgyblion unigol a phlant cyn oed ysgol;
- hyfforddiant i ysgolion i'w helpu i ddeall anghenion disgyblion â nam ar eu clyw ac i wneud addasiadau rhesymol i ddiwallu eu hanghenion; ac
- hyfforddiant, offer a deunyddiau i ysgolion i helpu disgyblion â nam ar eu clyw, fel cymhorthion radio.

Mae'n dysgu disgyblion â nam ar y clyw i ymdrin â'u hanghenion mewn ffordd annibynnol, er enghraifft, mae'r Clinig Pontio yn Ysbyty Prifysgol Cymru wedi diweddaru ei wasanaeth tecstio er mwyn i blant a phobl ifanc fedru rheoli eu cynllun gofal yn uniongyrchol. Drwy greu cysylltiadau â fforwm Pobl yn Gyntaf Caerdydd, mae pobl ifanc ag anabledd hefyd wedi gallu cynrychioli eu 'cymuned' ar y fforwm ieuencid hwn.

Sir Fynwy

Cynhaliwyd cynhadledd gyntaf Sir Fynwy ar gyfer pobl Lesbaid, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) ym mis Chwefror 2016 a'r gwasanaeth ieuencid drefnodd hon. Roedd yn gyfle i bobl ifanc Sir Fynwy leisio barn a rhannu profiadau.



Torfaen

Mae rôl Swyddog Cyfranogi'r awdurdod lleol yn cynnwys hybu CCUHP a hawliau plant. Caiff sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth eu cynnig i aelodau'r Grŵp Ymgysylltu Strategol, asiantaethau sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod, plant a phobl ifanc a grwpiau cymuned. Defnyddir y sesiynau hyn i hybu a hyrwyddo cyfranogiad ac i ddewis 'hyrwyddwyr cyfranogi' ym mhob maes gwasanaeth.

Mae'r Swyddog Cyfranogi hefyd wedi trefnu i ymweld â phob cyngor ysgol newydd ym mis Medi 2016 i gyflwyno sesiynau codi ymwybyddiaeth o CCUHP gan ganolbwyntio ar Erthygl 12.

2.4 Parch

Dyma mae'r safon hwn yn ei olygu: • Mae gennych chi'r hawl i leisio barn • Mae'ch safbwyntiau chi'n bwysig a chânt eu parchu	Byddwn ni'n: • Gwrando ar eich barn, eich profiadau a'ch syniadau ac yn eich cymryd o ddifri • Gweithio gyda chi ar bethau rydych chi'n dweud eu bod nhw'n bwysig • Gwerthfawrogi beth sydd gennych i'w gynnig
---	---

Engbreiffiau o arfer da mewn Awdurdodau Lleol

Pen-y-bont ar Ogwr

Datblygwyd 'Prosiect 446' ar ôl cael 2800 o ymatebion i ymgynghoriad ynghylch bodlonrwydd cymunedol. Ymatebodd plant a phobl ifanc i'r ymgynghoriad yn ystod eu gwersi TGCh yn yr ysgol, pan gawsant wasanaethau yn y gymuned neu wasanaethau cyffredinol mynediad agored a chafwyd ymatebion hefyd gan weithwyr proffesiynol rheng flaen.

Ymgynghorwyd hefyd â'r rhai yr ystyrir eu bod wedi'u difreinio neu wedi ymddieithrio. Yna, cafodd adnoddau eu targedu at ardaloedd lle nodwyd bod problemau. O ganlyniad, mae grwpiau gweithredu wedi datblygu cynlluniau tymor byr, tymor canolig a thymor hir.


Caerdydd



Adnodd ar-lein i athrawon a gweithwyr ieuenctid yw gwefan 'Tools 4 Life' ac mae'n ymwneud yn benodol ag Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh). Cyngor Ieuenctid Caerdydd ddatblygodd yr adnodd gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd drwy gynnal arolwg o farn pobl ifanc Caerdydd fel llinell sylfaen. Mae'n adlewyrchu'r meysydd y mae pobl eisoes wedi dweud yr hoffent ddysgu amdanynt.

www.cardiffyouthcouncil.wix.com/tools4life

Sir Gaerfyrddin



Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau plant a phobl ifanc yr ardal. Yn ogystal â hyn, maent wedi datblygu Strategaeth Plant a Phobl Ifanc ar gyfer 2015-2018.

Sir Ddinbych

Caiff plant ysgolion cynradd y sir gyfle i gyfarfod â Chadeirydd y Cyngor, yr Aelod sy'n gyfrifol am Addysg a'u cynrychiolydd lleol, mewn sesiwn Holi ac Ateb yn Siambr y Cyngor.

Sir y Fflint

Mae'r Tîm Ysgolion Iach a'r Gwasanaeth Ieuencid Integredig yn arwain y gwaith o ddatblygu cynadleddau blynyddol ar gyfer cynghorau ysgol. Yn y rhain, bydd aelodau'r cynghorau ysgol yn trafod materion amrywiol ac yn siarad yn uniongyrchol ag Aelodau etholedig mewn sesiwn Holi ac Ateb.



Sir Fynwy

Bydd Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet yn bresennol mewn fforwm preswyl blynyddol i glywed am faterion sy'n bwysig i blant a phobl ifanc yr ardal.

Mae ysgolion yn yr awdurdod wedi cydweithio i sicrhau bod ffoaduriaid o Syria yn cael eu croesawu a chaiff dosbarthiadau Arabeg eu cynnal yn ystod amser cinio i ddisgyblion sy'n awyddus i ddysgu siarad yr iaith.

Sir Benfro

Caiff Cynllun Integredig Unigol Sir Benfro ei adolygu bob blwyddyn a chaiff y Cynulliad Ieuencid gyfle i roi sylwadau arno. Mae'r Senedd Ieuencid hefyd wedi cael cyfle i gyfarfod ag aelodau'r Cyngor i drafod blaenoriaethau pobl ifanc o ystyried toriadau yng ngwariant yr awdurdod lleol.

Mae pobl ifanc hefyd yn rhan o'r broses o recriwtio staff allweddol y Gyfarwyddiaeth Plant ac Ysgolion, gan gynnwys Penaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr.




Mae gwefan newydd Ieuenctid Sir Benfro <http://www.pembrokeshireyouth.co.uk> yn cynnwys adran benodol ar hawliau a chyfranogi, ynghyd â manylion holl brosiectau'r Gwasanaethau Ieuenctid, gan gynnwys clybiau ieuenctid y sir, fforymau ieuenctid, a lle y gall pobl ifanc gael cymorth a chynghor.

Abertawe

Mae'r Tîm Hawliau Plant yn gweithio'n rheolaidd ar y cyd â chydweithwyr, sefydliadau a phartneriaid i annog plant a phobl ifanc i gyfranogi ac ymgysylltu'n briodol. Mae hyn yn cynnwys gwaith cydgysylltu sy'n berthnasol i'r CCUHP a chyfranogiad plant a phobl ifanc, gan sicrhau bod gwaith cydlynol yn mynd rhagddo mewn perthynas â darparu gwasanaethau a bod cyfleoedd ar gael i blant yn y blynyddoedd cynnar, grwpiau anodd eu cyrraedd a chynghorau ysgol.

Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys datblygu amcanion CCUHP yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, creu cysylltiadau â Fforwm Plant a Phobl Ifanc y trydydd sector a chael cynrychiolaeth ar y Fforwm, ailsedydlu'r Rhwydwaith Hawliau Plant a helpu ysgolion i hybu eu gwaith yn ymwneud ag Ysgolion sy'n Parchu Hawliau.

Torfaen



Mae Torfaen wedi cyflwyno Flex – dull o ymgynghori ar-lein. Yn ogystal â bod ar gael o bell, mae pob disgybl ysgol uwchradd yn Nhorfaen yn gallu defnyddio Flex drwy ddefnyddio tab ar eu cyfrifiadur pen desg yn yr ysgol.

<https://telflex.torfaen.gov.uk/consult.ti>

Bro Morgannwg

Mae Cyngor Tref Penarth wedi lansio Gwobr Dinasyddion Ifanc i gydnabod llwyddiant plant a phobl ifanc yn yr ardal.

Caiff y prosiect ei redeg ar y cyd â thîm Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Bro Morgannwg a Phrosiect Ieuenctid Penarth, a'r nod yw dangos bod y gymuned yn gwerthfawrogi'r plant a'r bobl ifanc eithriadol hyn ac annog eraill i ddilyn ôl eu traed.

2.5 Byddwch chi ar eich ennill

Dyma mae'r safon hwn yn ei olygu: • Mae gennych yr hawl i ddysgu a chyflawni'ch potensial yn llawn • Byddwch yn cael cyfleoedd i weithio gydag eraill a gwneud gwahaniaeth • Rydym am i'ch profiadau fod yn rhai da	Byddwn ni'n: • Gweithio gyda chi mewn ffyrdd diogel, sy'n rhoi pleser a mwynhad i chi • Gwneud y gorau o'r hyn rydych chi'n ei wybod ac yn gwneud pethau sy'n meithrin eich hyder a'ch sgiliau
--	---

Engbreiffiau o arfer da mewn Awdurdodau Lleol

Blaenau Gwent

Mae NYAS yn darparu gwasanaeth eirioli cyffredinol i bob person ifanc hyd at 25 oed ac yn sicrhau bod pawb sy'n defnyddio'u gwasanaethau'n gwybod am CCUHP.

Mae Uwch Gyngor y Plant yn cynnwys dau aelod o bob ysgol gynradd yn yr awdurdod lleol.

Cafodd gwefan Byg ei ddylunio gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc rhwng 11-25 sy'n byw yn ardal Blaenau Gwent. Ar y wefan, ceir gwybodaeth am ddigwyddiadau, newyddion, gweithgareddau, gwasanaethau a chyfleoedd. Mae'n wefan cwbl ryngweithiol sy'n annog pobl ifanc i fod yn greadigol ac i gyfranogi'n uniongyrchol.
www.thebyg.co.uk




Mae Cynllun Cenhadon y Gwasanaeth Ieuencid yn helpu i lywio gwaith y Gwasanaeth Ieuencid, ac mae'n ffordd i bobl ifanc leisio barn. Disgwylir i'r Cenhadon gynrychioli eu priod feysydd a rhoi arweiniad i'r staff ynghylch y materion hynny sy'n effeithio ar bobl ifanc, awgrymu syniadau ar gyfer y dyfodol a siarad ar ran pobl ifanc eraill. Drwy'r Cynllun, bydd pobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses o recriwtio staff, i sicrhau bod y gweithlu'n ymwybodol o bwysigrwydd cynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau ar bob lefel. Mae'r awdurdod hefyd wedi creu swydd ar gyfer Maer Ieuencid.

Caerffili

Mae'r Awdurdod Lleol yn ariannu staff sesiynol i ddatblygu rhaglen gyfranogi mewn clybiau ieuenctid.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cyfranogiad Lleol yn helpu sefydliadau i annog plant a phobl ifanc i gyfranogi, mae'n hybu hawl plant i leisio barn ac i gael gwrandawriad, ac mae'n helpu sefydliadau i ddatblygu ymrwymiad i'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.

Caerdydd



Cafodd yr Hyb Meddwl ei greu gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc; mae'n cynnwys gwybodaeth a dolenni i wasanaethau'n ymwneud ag iechyd a lles emosiynol. Llwyddodd y bobl ifanc i sicrhau arian i sefydlu'r Hyb Meddwl sydd hefyd yn cynnwys adran sylwadau.

<http://www.mindhub.wales/>

Sir Gaerfyrddin

Mae Cyngor Ieuenctid wedi'i hen sefydlu yn y Sir, ac mae'n gorff sy'n cynrychioli pobl ifanc y Sir. Bydd yr aelodau'n cyfarfod â phenaethiaid i drafod a datrys problemau'n ymwneud â bwlio.

Bydd pobl ifanc yn helpu i hyfforddi gofalmwyr maeth, gan gyflwyno safbwynt pobl ifanc a thrafod sut brofiad yw bod mewn gofal.

Sir y Fflint

Yn 2016, cafodd staff a oedd yn cynrychioli athrawon ar gynghorau ysgol hyfforddiant ar y ddogfen ganllaw ar gyfer cynghorau ysgol, CCUHP a dulliau cyfranogi i'w defnyddio yng nghyfarfodydd y cyngor ysgol ac wrth weithio gyda chymuned ehangach yr ysgol.

Sir Fynwy

Mae pobl ifanc yn rhedeg caffi i bobl ifanc, sef Central Kaff, yng Nghas-gwent. Mae'n lle i bobl ifanc gyfarfod, defnyddio'r rhyngwrwyd, cyfrifiaduron, astudio a chymryd rhan mewn gweithgareddau i'w helpu i gael gwaith a dysgu sgiliau bywyd. Y bobl ifanc sy'n rheoli pob agwedd ar y busnes gan gynnwys y gwaith papur, archebu cyflenwadau a chadw at safonau hylendid.



Sir Benfro

Caiff pobl ifanc gyfle i weithio dan hyfforddiant yn swyddfa Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn yr awdurdod lleol. Byddant yn gweithio dan oruchwyliaeth a chyfarwyddyd y Swyddog Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn helpu plant a phobl ifanc i ymwneud â'u cymunedau a'r broses ddemocrataidd, gan sicrhau bod ganddynt lais yn y modd y caiff gwasanaethau ac adnoddau eu datblygu i wella'u profiadau a'u canlyniadau. Mae'r swydd hefyd yn hyrwyddo a chreu cyfleoedd i blant a phobl ifanc Sir Benfro ddeall eu hawliau o dan CCUHP.

Mae'r swyddfa Hawliau Plant a Phobl Ifanc wedi cynhyrchu tri pholisi enghreifftiol ar gyfer ysgolion (ynghyd â gwybodaeth i lywodraethwyr) yn ymwneud â chyfranogiad disgyblion, cynnwys disgyblion yn y broses o recriwtio staff, ac yn y gwaith o werthuso addysgu a dysgu. Y nod yw datblygu'r polisïau hyn i roi llais ffurfiol i blant yng nghyd-destun polisïau'r ysgol ac i sicrhau mwy o gysondeb o ran arfer.

Powys

Bob blwyddyn, bydd yr awdurdod lleol yn cynnig lle i bedwar person ifanc sy'n derbyn gofal neu sy'n gadael y gwasanaethau gofal, i weithio dan hyfforddiant i'r awdurdod, a hynny fel rhan o ymrwymiad rhianta corfforaethol. Rhaglen dwy flynedd o hyd yw hon ac mae'n gyfle i'r pobl ifanc ennill cymhwyster NVQ.

Abertawe

Ym mis Ionawr 2016, datblygwyd Fforwm Llais Disgyblion sy'n cynnwys cynrychiolwyr a gaiff eu hethol o blith disgyblion o bob ysgol uwchradd y sir. Byddant yn cyfarfod â Phrif Swyddog Addysg Abertawe a bydd ganddynt lais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyh nhw, yn enwedig ym maes addysg.

Torfaen

Mae Grŵp Ymgysylltu Strategol Torfaen yn bartneriaeth sy'n allweddol i'r broses o hybu cyfranogiad. Mae prosiectau partneriaeth presennol y Swyddog Cyfranogi yn cynnwys gweithio gyda phrosiect Torfaen Plays i gyflwyno sesiynau i godi ymwybyddiaeth gweithwyr chwarae o CCUHP, ac i gynllunio a chyflwyno gemau sy'n caniatáu i blant gymryd rhan mewn asesiadau o'u llesiant.

Bro Morgannwg

Prosiectau y bydd Gwasanaeth Ieuenctid Bro Morgannwg yn eu cyflwyno mewn partneriaeth â chynghorau tref y sir yw Grwpiau Gweithredu Ieuenctid Bro Morgannwg.



Mae'r Grwpiau Gweithredu hyn yn gweithio gyda'r rhai sy'n gyfrifol am benderfyniadau lleol, a chawsant eu sefydlu i wneud yn siŵr bod barn a syniadau pobl ifanc yn cael eu hystyried o ddifrif. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn prosiectau a gweithgareddau sy'n

helpu i wella pethau i bobl ifanc yn dref. Gelwir yr aelodau, sydd rhwng 11 a 18 oed, yn gynghorwyr ifanc. Cânt eu hethol gan bobl ifanc mewn ysgolion a mudiadau ieuenctid y dref i gynrychioli eu barn, eu syniadau a'u diddordebau nhw ac i weithredu ar eu rhan.

Wreccsam

Ers asesiad cyntaf Wreccsam o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, a gyhoeddwyd yn 2013, cwblhawyd chwech o astudiaethau ymchwil academiaidd sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r rhaglen digonolrwydd chwarae yn Wreccsam. Roedd dros 1450 o unigolion yn rhan o Asesiad 2016, gan gynnwys 1133 o blant blwyddyn 5 a 175 o rieni a lenwodd holiadur bodlonrwydd.

Mae asesiad diweddaraf Wreccsam, a gwblhawyd ym mis Mawrth 2016, yn nodi un datblygiad arbennig o galonogol, sef bod plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried yn benodol fel rhan o'r broses o Asesu Effaith ar Gydraddoldeb yn yr awdurdod lleol. Mae cyfle'n awr i wella'r canllawiau i weithwyr proffesiynol wrth gwblhau'r asesiadau statudol hyn i sicrhau bod yr effaith ar hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried yn ddigonol.

O ganlyniad i Gynllun Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2016/17, penderfynwyd cynnwys y flaenoriaeth a ganlyn: 'Cefnogi'r broses o Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb drwy ddatblygu canllawiau i ystyried a oes gan blant amser a lle i chwarae, yn enwedig plant â nodweddion gwarchodedig.'



Cynhyrchwyd fideo wedi'i hanimeiddio, i helpu i esbonio'r casgliadau a'r blaenoriaethau a nodwyd ar ôl cynnal ymchwil trylwyr â phlant. Bydd y Tîm Datblygu Chwarae'n dangos y fideo i blant a phobl ifanc pan fyddant yn siarad â nhw am gyfleoedd i chwarae.

<https://www.youtube.com/watch?v=ftxo054jCfE>

2.6 Adborth

Dyma mae'r safon hwn yn ei olygu: Mae gennych hawl i wybod pa wahaniaeth rydych chi wedi'i wneud a sut y mae'ch syniadau wedi dylanwadu ar ein gwaith	Byddwn ni'n: • Gwneud yn siŵr bob amser eich bod yn cael adborth o fewn cyfnod penodol • Dweud wrthy'ch sut rydym wedi defnyddio'ch sylwadau
---	---

Engbreiffiau o arfer da mewn Awdurdodau Lleol

Caerffili



Bydd yr awdurdod yn cynnal arolwg o deuluoedd bob dwy flynedd a bydd y Fforwm Ieuenctid hefyd yn casglu sylwadau gan bobl ifanc am wasanaethau a chyfleusterau yn yr awdurdod lleol.

Sir Benfro

Yn Strategaeth Cyfranogiad a Hawliau Plant a Phobl Ifanc Sir Benfro 2013-16 mae'r awdurdod yn ymrwymo i hybu a gwella cyngorau ysgol i ddatblygu arfer mwy effeithiol mewn ysgolion. Bydd pob ysgol yn Sir Benfro yn cael Ymweliad Gwerthuso Llais Myfyrwyr ac, o ganlyniad, caiff adroddiad ei baratoi yn tynnu sylw at feysydd lle ceir arfer da a meysydd i'w datblygu o dan y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol. Bydd yr Ymweliad yn archwilio'r ffyrdd y mae ysgolion yn gwrando ar blant a phobl ifanc.

Powys

Mae Powys wedi datblygu templed sy'n dangos y wybodaeth allweddol y mae'n rhaid ei chynnwys er mwyn paratoi adborth effeithiol. Rhaid i'r prif swyddogion ystyried, pwy, ble, pryd, sut a pham yn ystod y broses. Mae'n cynnwys cofnodi'r hyn a ddysgwyd, beth fydd yn digwydd nesaf, a sut. Mae'r templed yn cael ei hyrwyddo ar wefannau, y cyfryngau cymdeithasol a drwy gyfrwng yr e-bost.

Abertawe

Mae Timau Tai Dinas a Chyngor Caerdydd yn cael eu cynorthwyo i weithio gyda phobl ifanc i ddatblygu system i'r rhai sy'n wynebu problemau tai fedru lleisio barn am ddatblygu gwasanaethau tai. Mae pobl ifanc o'r prosiect Gweithredu dros Blant, prosiect Pobl Ifanc Sengl Ddigartref Abertawe, BAYS a Fi-Forum wedi dod ynghyd i weithio gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac i drafod materion sy'n berthnasol i bobl ifanc Abertawe ac i ddod o hyd i ffyrdd o gyflwyno newidiadau. O ganlyniad, mae grŵp o bobl ifanc yn awr yn gweithio gyda swyddogion yr awdurdod i ddatblygu grŵp cynghori a fydd yn ystyried sut y gellir tynnu mwy o sylw at y cymorth sydd ar gael i bobl ifanc sydd ag anghenion tai.

Bro Morgannwg



Bydd Cabinet leuenctid Bro Morgannwg yn cyfarfod â'r Cyngor Sir llawn unwaith bob tymor ysgol. Bydd y Maer leuenctid yn cyfarfod ag arweinydd y Cyngor Sir ar wahân i'r Cabinet leuenctid. Bydd y Cabinet leuenctid yn cytuno â Chabinet y Cyngor Sir ynghylch y meysydd gwaith a'r polisiau hynny y maent yn teimlo y dylent gael cyfrannu atynt.

2.7 Gwella ein ffordd o weithio

Dyma mae'r safon hwn yn ei olygu: Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc sicrhau bod hawliau plant yn ganolog i bopeth a wnânt	Byddwn ni'n: • Gweithio gyda chi a dysgu sut y gallwn wella'n ffordd o weithio • Gwneud yn siŵr bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i'n cynlluniau a'n penderfyniadau
---	--

Engbreiffiau o arfer da mewn Awdurdodau Lleol

Blaenau Gwent



Mae gwaith cyfranogi'n ganolog i Is-adran Strategaeth Gorfforaethol yr awdurdod ac mae hynny'n galluogi'r tîm i gysylltu â phobl un o'r adrannau. Caiff cyfranogiad ei adlewyrchu'n llawn yn y cynlluniau strategol presennol a bydd hynny'n parhau wrth fwrw ymlaen â gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Ym Mlaenau Gwent, mae cylch gorchwyl y Bwrdd hwn yn cyfeirio'n benodol at y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.

Caerffili

Mae'r Cynllun Gweithredu Cyfranogiad Lleol yn esbonio'r trefniadau ar gyfer hybu a hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc, gan adeiladu ar systemau sydd wedi'u hen sefydlu i fodloni gofynion deddfwriaeth. Y nod yw datblygu cyfeiriad

a dealltwriaeth gyffredin o gyfranogiad ymhlith darparwyr gwasanaethau er mwyn sicrhau bod Caerffili yn datblygu'n awdurdod sy'n parchu hawliau.



Caerdydd

Yn ei Gynllun Corfforaethol 2016-18, mae Caerdydd yn ymrwymo i ennill statws Dinas sy'n Ystyriol o Blant. Penodwyd Cyfarwyddwr arweiniol ac Aelod o'r Cabinet ac maent wedi dechrau trafod ag UNICEF.

Caiff sesiwn herio ei chynnal bob blwyddyn i roi cyfle i blant a phobl ifanc gyfarfod â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, aelodau o'r Pwyllgor Cynghori ynghylch Rhianta Corfforaethol ac Uwch Reolwyr y Gwasanaethau Plant i herio cynnwys adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr.

Sir Gaerfyrddin



Yn ôl y Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc, cyfranogiad yw un o brif flaenoriaethau cynllun busnes yr awdurdod. Y weledigaeth dros y tair blynedd nesaf yw sicrhau bod diwylliant o gyfranogi'n rhan annatod o waith y Cyngor cyfan, gan roi llais i blant a phobl ifanc, a sicrhau y gall eu barn ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a'u bywydau bob dydd. Bydd Aelodaeth etholedig ac uwch swyddogion yn bresennol yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol y Cyngor leuencid ac mae'r Awdurdod hefyd wedi datblygu'r Addewid Hawliau Plant.

Conwy

Mae Conwy wedi mabwysiadu'r Cynllun Hawliau Plant. Wrth wneud hynny, maent hefyd wedi datblygu systemau a chanllawiau rhyngweithiol i sicrhau y gall swyddogion gydymffurfio â'r Cynllun wrth eu gwaith o ddydd i ddydd. Drwy fabwysiadu'r Cynllun, bydd yr awdurdod yn ystyried a fydd unrhyw benderfyniad yn ymwneud â pholisi, prosiect, cynllun, strategaeth neu wasanaeth yn effeithio, er gwell neu er gwaeth, ar blant a phobl ifanc.

Sir y Fflint

Bu newid arwyddocaol ac amlwg yn y maes rheoli newidiadau, a hynny tuag at ymgysylltu â'n pobl ifanc mewn ffordd ystyrlon. Bydd swyddogion ar bob lefel yn awr yn gofyn am gymorth i ymgysylltu â'r cyhoedd, a phobl ifanc yn benodol. Mae'r diwylliant wedi newid ac uwch swyddogion sy'n gyfrifol am hynny, drwy wahodd pobl ifanc i herio penderfyniadau.

Mae Gweithwyr Fforwm leuencid wedi ennyn diddordeb aelodau'r cynghorau ysgol yng ngwaith Cynghorau Tref.

Gwynedd

Mae cronfa ddata Cynllun y Gweithlu'n cael ei datblygu mewn perthynas â'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc Gwynedd. Bydd y gronfa ddata'n amlygu sgiliau a bylchau yng nghymwysterau'r rhain gan alluogi'r awdurdod i ddatblygu rhaglenni hyfforddi addas.

Sir Fynwy

Mae pobl ifanc a gweithwyr ieuchyd proffesiynol Sir Fynwy wedi datblygu gwefan ddefnyddiol sy'n cynnig cyngor a chymorth i'r rhai sy'n eu niweidio'u hunain. Adnodd ar-lein yw **Buddy**, sy'n cynnig canllawiau a chymorth therapiwtig sydd ar gael i bobl ifanc bob amser.



Mae'r cymorth a gynigir yn gyfrinachol ac mae'n dangos sut i ymdrin â meddyliau a theimladau negyddol cysylltiedig â hunan-niwed, gan sicrhau'r rhai sy'n mynd drwy gyfnod anodd nad ydynt ar eu pennau'u hunain. <http://buddyapp.monmouthshire.gov.uk/>


Sefydlwyd Fforwm Ieuenctid Rhanbarthol ar y cyd â Blaenau Gwent, Caerffili, Torfaen a Chasnewydd. Mae'n cyfarfod bob chwarter.

Sir Benfro

Mae gan Sir Benfro aelod arweiniol sy'n gyfrifol am hawliau'r plentyn, ac mae hefyd yn cadeirio'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol. Mae gan nifer o bobl o bob rhan o'r awdurdod gyfrifoldeb dros sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn ganolog i waith Sir Benfro.

Caiff y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol eu defnyddio mewn nifer gynyddol o leoliadau wrth werthuso gwasanaethau. Ar hyn o bryd, mae'r prosiectau a gomisiynir fel rhan o raglen Teuluoedd yn Gyntaf yn mynd drwy broses hunanasesu ac, yn y cylch comisiynu nesaf, bydd gofyniad clir i'r rhain ennill nod barcud NPS erbyn diwedd 2017.

Powys



Mae awdurdod lleol Powys wedi penodi Aelod o'r Cabinet yn Hyrwyddwr Ieuenctid (mae'r rôl yn wahanol i'w rôl fel deiliad portffolio). Roedd aelodau'r Fforwm Ieuenctid yn rhan o'r gwaith o ddrafftio'r disgrifiad o'r rôl.

Rhondda Cynnon Taf (RCT)

Fel rhan o'u cynllun gweithredu, mae Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogi Ieuenctid RCT wedi datblygu dull arloesol o ddefnyddio addysg a rhaglenni hyfforddi. Y nod yw defnyddio dulliau o greu proffil o bobl ifanc agored i niwed i dargedu gwasanaethau a defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol.

Creu proffiliau o bobl ifanc agored i niwed yw'r un dull y mae RCT wedi cytuno arno i ddod o hyd i'r unigolion hynny sydd mewn perygl o golli diddordeb mewn addysg oherwydd y rhwystrau economaidd gymdeithasol sy'n eu hwynebu'r tu allan i'r ysgol. Mae'n galluogi'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogi Ieuenctid i dargedu a dyrannu adnoddau, cynllunio gwasanaethau a gwerthuso'u heffaith, i sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Abertawe

Mae CCUHP yn rhan annatod o'r broses bresennol o Asesu Effaith ar Gydraddoldeb (EIA). Mae'r asesiadau hyn yn ddogfennau cyfreithiol sy'n rhoi fframwaith cadarn ar gyfer gwasanaeth sgrinio a/neu benderfyniadau polisi yn ôl y nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddff Cydraddoldeb 2010. Un o'r rhain yw oedran. I hybu'r gwaith cysylltiedig â CCUHP, mae'r EIA wedi'i ymestyn i rannu oedran yn ddau gategori: iau na 18 oed a hŷn na 18 oed. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl gweld pa benderfyniadau sy'n effeithio'n benodol ar blant.

Mae rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ymdrin yn benodol ar y modd y gallai cynnig penodol effeithio ar erthyglau penodol o fewn CCUHP; a yw'r cynnig wedi'i ddylunio neu'i gynllunio er budd mwyaf plant a phobl ifanc; a oes angen cymryd camau i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol ar hawliau plant neu i gau unrhyw fylchau mewn gwybodaeth?

Rhaid i unrhyw ddarparwyr gwasanaeth a gaiff eu contractio fel rhan o raglenni Dechrau'r Deg a Theuluoedd yn Gyntaf ystyried hawliau plant wrth greu polisiâu neu benderfynu ar wasanaethau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, fel y nodir yn y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc.

Torfaen

Mae Bwrdd Gwella Plant a Phobl Ifanc Torfaen yn cynnwys cynrychiolwyr o bob asiantaeth sy'n cyfrannu at les plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn Nhorfaen. Gweledigaeth y Bwrdd yw y bydd pob plentyn a pherson ifanc yn Nhorfaen yn iach, yn Ddiogel ac yn Llwyddiannus.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i CCUHP ac yn ei gefnogi.

Bydd Swyddog Cyfranogi Torfaen yn ymweld â phob cyngor ysgol newydd ar ddechrau'r flwyddyn addysgol i gyflwyno hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o CCUHP gan ganolbwyntio ar Erthygl 12: Cyfranogi. Bydd yn ymweld â grwpiau ieuenctid cysylltiedig drwy gydol y flwyddyn.



3. Gwobrau Rhagoriaeth mewn Gwaith Ieuenctid 2016

Gwobr	Prosiect / Awdurdod Lleol
Cyfraniad eithriadol at waith ieuenctid yng Nghymru 2016	Prosiect Meisgyn Jonathan Evans, Gwasanaethau Plant, Cyngor Bwrdeistref Sirol, Rhondda Cynon Taf
Prosiect gwaith ieuenctid dan arweiniad person ifanc 2016	Adroddiad Trafnidiaeth Ysgol Cabinet Ieuenctid Bro Morgannwg
Prosiect gwaith ieuenctid sy'n hyrwyddo sgiliau cyflogadwyedd 2016	Prosiect ymgysylltu â chyflogwyr – Gwasanaethau Ieuenctid Sir Benfro
Prosiect gwaith ieuenctid eithriadol sy'n hyrwyddo diwylliannau yng Nghymru 2016	Pysgota yn ardal wledig Conwy – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Prosiect gwaith ieuenctid eithriadol sy'n helpu i ennyn diddordeb pobl ifanc mewn addysg ffurfiol 2016	Addysg Bersonol a Chymdeithasol - Cymhwyster Lefel 2, Gwasanaethau Ymgysylltu a Chyfranogi Ieuenctid, RCT

Marc ansawdd ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru 2016

Cafodd y canlynol wobwr efydd yng nghynllun marc ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ieuenctid yn 2016:

- Gwasanaeth Ieuenctid Conwy
- Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogi Ieuenctid Rhondda Cynon Taf
- Canolfan Cwmbrân



4. Casgliadau

Ymwelodd staff Is-adran Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd Llywodraeth Cymru â'r 22 awdurdod lleol i ystyried sut y galluogir plant a phobl ifanc i gyfranogi ar lefel leol ac i rannu arfer da.

Cafodd y canllaw arfer da hwn ei gynhyrchu i dynnu sylw at yr hyn a welsom yn ystod ein hymweliadau ond nid dyma'r holl arfer da sydd ar waith ar hyd a lled Cymru.

Yn ychwanegol i'r gwaith arloesol a chyfleodd i blant a phobl ifanc gyfranogi'n lleol, mae nifer o'r Awdurdodau Lleol wedi datblygu proses Asesu Effaith ar Hawliau Plant, neu wrthi'n gwneud hynny – mae rhai wedi cynnwys hawliau plant yn eu prosesau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb.

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi trefnu a chyfranogi at yr ymweliadau, sydd wedi ein galluogi nodi'r arfer da sydd yn digwydd ar hyd a lled Cymru.

Rydym yn edrych ymlaen at ymweld â'r holl awdurdodau lleol eto yn 2017!

Atodiad A: Cyfeirlyfr Awdurdodau Lleol

Awdurdod Lleol	Tudalennau
Abertawe	8,15,18,21,25
Blaenau Gwent	6,11,16,22
Bro Morgannwg	8,15,18,21,26
Caerdydd	9,11,13,17,22
Caerffili	7,9,17,20,22
Ceredigion	7
Conwy	7,10,23,26
Gwynedd	23
Pen-y-bont ar Ogwr	6, 11,13
Powys	18,20,24
Rhondda Cynnon Taf (RCT)	24,26
Sir Benfro	8,14,18,20,24,26
Sir Ddinbych	7,10,14
Sir Fynwy	7,12,14,17,23
Sir Gaerfyrddin	7,14,17,23
Sir y Fflint	7,14,17,23
Torfaen	8,10,12,15,18,25,26
Wreccsam	8,10,19

Atodiad B: Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol

[illegible]